"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1884. [RHIF 34.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Adgyfodiad y Corff	121
Sefydliad yr Achos yn Rhydyparc	123
Cyfarfod Chwarterol y Pasg	125
Sylwadau ar Gyfarfod Rhydyparc	127
Y Ddau Adgyfodiad a'r Ail Farwolaeth	130
Christadelphiaeth	132
Nodynau Eglurhaol ar "Delyn Dewi"	134
Y Meudwy	137
"Addysg y Deuddeg Apostol"	138
Nodynau Gwasgarog	140
Manion a Hanesion	142
Marwgofion	144

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1884. [RHIF 34.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

ADGYFODIAD Y CORFF.

PAN oeddwn yn ddiweddar yn myned i mewn i siop ar neges—siop heb fod lawn triugain milldir o swyddfa YR YMOFYNYDD, clywais hen wraig yn dywedyd, "They don't believe in the resurrection of the body, you know;"—ydy nhw ddim yn credu yn adgyfodiad y corff, wyddoch. Dyna'r cwbl glywais i, ac wrth gwrs nid oedd yn perthyn i mi holi. Ond os na ddarfu i mi holi, darfu i mi feddwl ychydig, ac un peth a feddyliais oedd, nad oedd y "nhw" yn ngolwg yr hen wraig ddim yn iawn. Ac meddwn i wrthyf fy hun, beth yw y gwir am y pwnc os gallwn ni wybod? Holais amryw, cynnrychiolwyr gwahanol enwadau, beth oedd y farn boblogaidd; a'r ateb gefais oedd, nad oedd un farn gyffredin; fod barnau pobl yn amrywio, a phob un at ei ryddid i ddal ei farn ei hunan.

Ond rhywfodd nid oedd modd i mi gael gwared o eiriau yr hen wraig, yr oedd eu hadsain o hyd yn syrthio ar fy nghlustiau o bryd i bryd, "Ydy nhw ddim yn credu yn adgyfodiad y corff, wyddoch." Beth fydd y canlyniad idd y "nhw" ydw i ddim yn gwybod.

Mae yn naturiol, fodd bynag, i holi beth olygir wrth adgyfodiad y corff, ac ar ba sail y credir y cyfryw. A ydyw addysg y "Llyfr Gweddi" yn benderfynol ar y pwnc? A pha beth ydyw tystiolaeth Hanes yr Eglwys ar y mater? Addysg y Llyfr Gweddi, debygwn, yw, fod y corff sydd yn myned i lawr i'r bedd, etto i ddyfod i fyny o hono a byw; a hyn hefyd yw y syniad sydd wedi ei goleddu gan luaws o Gristnogion trwy bob oes; etto, ychydig bwys esyd darllenwyr YR YMOFYNYDD ar un o'r ddau yna, ac y mae yn amheus genyf a oes fawr i gadarnhau y syniad yn y Testament Newydd. O leiaf, dywedir yn bendant yno nad yw "cig a gwaed" i etifeddu Teyrnas Nefoedd; a'r

hyn y mae Paul yn ei wasgu adref yn ei ymresymiad yn nghylch yr adgyfodiad, yr *anastasis*, yw, esgyniad i fywyd uwch, esgyniad y llygradwy i gyflwr o anllygredigaeth, a'r marwol i gyflwr o anfarwoldeb. Yr hyn a ddarllenwn yn y Beibl yw, fod y corff, gwisg weledig dyn, yn myned i'r ddaear fel y bu, a'r yspryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef.

Mae y corff sydd yn myned i'r ddaear, y defnyddiau a'u cyfansoddant, yr oxygen, hydrogen, nitrogen, carbon, phosphorus, &c., bob yn ychydig yn ymgymmysg â phridd y ddaear; ac yn raddol yn dyfod yn rhan anwahanadwy ac anwahaniaethadwy o ddefnydd y ddaear; a thrachefn yn pasio tuag i fyny, ac yn ffurfio maeth a bywyd y byd llysieuaidd, ac i fyny drachefn rai o honynt i ffurfio rhan gyfansawdd o'r awyrgylch sydd yn myned ar daith ddiymatal amgylch ogylch y ddaear. Os felly, mae miloedd o feddau na chynnwysant heddyw un mymryn, un *atom* o'r cyrff sydd wedi myned i waered iddynt. A oes rhyw reswm, rhyw debygolrwydd yn y syniad y dygir etto yn nghyd yr un a'r unrhyw elfenau yma, yr un oxygen, hydrogen, nitrogen, carbon, phosphorus, &c., yma, o wahanol bellderau'r ddaear a'r awyrgylch, er adeiladu drachefn hen gyrff y gorphenol? Onid yw yn debygol hefyd fod yr un elfenau yma wedi bod yn ffurfio defnyddiau llawer o wahanol gyrff yn nhreigliad oesoedd a chanrifoedd y gorphenol? Sut felly y gall pob un feddiannu ei gorff ei hun?* A thrachefn, fe ddywed y naturiaethwyr nad oes yn aros yn un corff heddyw yn fyw, yr un mymryn, yr un gronyn lleiaf o'r hyn oedd yn ei wneuthur i fyny ychydig yn ol, dyweder dwy neu bump neu saith mlynedd, nid oes wahaniaeth am yr amser *exact*. Os yw corff dyn yn cwbl newid bob saith mlynedd, mae y dyn triugain â deg wedi myned trwy lawer corff yn ystod ei yrfa ddaearol. O'r holl gyrff hyn, fe ddywedir mai corff yr adgyfodiad fydd yr un a'r unrhyw gorff sydd yn myned i lawr i'r bedd. Yn wyneb hyn daw llu o anhawsderau newyddion i'r meddwl; cyfyd y plentyn yn blentyn, yr hen wr yn hen wr, y cloff, yr anafus, y methiantus, &c., yn yr un cyflwr ag yr aethant i lawr. Ai felly?

Nid felly dybiaf fi. Nag e, nag e, "nid y corff a fydd yr ydwyt yn ei hau;" dyna ateb Paul i'r gofyniad, "Pa fodd y cyfodir y meirw, ac a pha ryw gorff y deuant." Ac yn mhellach "Efe a heuir mewn gwendid, ac a gyfodir mewn nerth." Nid yw yr *anastasis* yn gynnwysedig mewn dygiad at eu gilydd o elfenau y corff cyntefig ond yn hytrach mewn esgyniad i fywyd uwch—pasio o ddaearol dŷ ein pabell hon, i fyny i'r adeilad newydd sydd ini gan Dduw, y tŷ nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd. Nid yw y "Pa fodd" yn fy ngolwg i o gymmaint pwys i ni â'r sylweddoliad o'r ffaith o anfarwoldeb, a'r ymdrech ar ein rhan ni i deilyngu yr anfarwoldeb dedwydd. Meithrinwn ffydd fywiol yn Nuw, mewn dyledswydd, ac mewn anfarwoldeb. Nid yw ein meirw yn syrthio allan o afael nac allan o ofal Duw; ac fe ddichon

---

* The particles that composed Adam's frame may before the end of the world have run the circuit of ten thousand bodies of his descendants:—

'Twas mine, 'tis his, and has been slave to thousands.—*Alger.*

y bywyd anfarwol fod yn agosach atom nag y mae neb o honom erioed wedi ddychymygu.

Trwy holl gyfnewidiadau y corff yn ystod yr yrfa ddaearol, mae y Fi o hyd yn parhau; a chredwn y bydd iddo barhau trwy y cyfnewidiad a elwir marwolaeth, ac os bydd angen corff, mewn corff wrth bob tebyg nid cyfansoddedig o oxygen, hydrogen, nitrogen, carbon, a phosphorus, fel yr hen un; ond o leiaf hyn yn sicr, mewn corff "fel y myno Efe."

TELOR.

SEFYDLIAD YR ACHOS YN RHYDYPARC.

CANGEN ydyw yr eglwys yma o eglwys Glandwr, a changen ydyw hono o hen eglwys Henllan. Er cymmaint y galarir gan y Parch. Thomas Rees o Abertawe, o herwydd yr heresi, fel yr ystyria efe ef, oedd yn aflonyddu yr eglwysi yn Nghymru yn y ganrif ddiweddaf, ymddengys i mi nad oedd yr oll ond ffrwyth naturiol yr adfywiad cyffredinol oedd yn pasio dros Ewrop ar y pryd. Yr oedd dynion yn cael eu harwain i feddwl, ac i feddwl drostynt eu hunain, gyda'r canlyniad naturiol o wahaniaethu mewn barn. Tua 1707—8 a 9, yr oedd dadleu ffyrnig yn eglwys Henllan, a hollti blew duwinyndol gan ddwy blaid, un dan arweiniad David Owen a'r llall dan arweiniad Lewis Thomas. Daliai Owen dros Galfiniaeth gymmedrol, a Thomas dros Uchel Galfiniaeth. Yr oedd amryw fathau o bob un o'r ddau. Galwai Owen blaid Thomas yn *Antinomiaid*, a galwai Thomas blaid Owen yn *Neominiaid*. Nid rhyfedd eu bod yn colli eu tymher pan yn galw enwau cas fel hyn ar eu gilydd. Y canlyniad fu i Owen a'i blaid orfod ymadael. Fel hyn y mae Dr. Rees yn barnu, "Er nad oedd Mr. Owen a'i blaid yn Henllan nac yn Arminiaid nac yn Ariaid, mae yn sicr eu bod yn gosod llai o bwys ar *wirioneddau efengylaidd* nag a ddylasent, ac y buasai y gogwyddiad at 'Efengyl arall' oedd yn awr yn dechreu ymddangos mewn llawer man yn y dywysogaeth, yn effeithio llawer yn fwy dinystriol nag y gwnaeth oni buasai y cyffroad grymus a phrydlon hwn." Y "gwirioneddau efengylaidd," wrth bob tebyg, yw y rhai a olygir wrth "Bump pwnc Calfin," y rhai ydynt, gan mwyaf, yn cael eu seilio ar adnodau tywyll a dyrys yn epistolau Paul, ac yn cynnwys Etholedigaeth Ddiammodol, Cospedigaeth mwyafrif plant Duw yn dragywyddol yn uffern am drosedd a dybir fod Adda wedi ei gyflawnu ryw chwe' mil o flynyddoedd yn ol, &c.; ac wrth "Efengyl arall" y golygir rhywbeth tebyg i'r un a bregethir yn awr yn y capelau Undodaidd, ac a seilir yn benaf ar addysgiadau Crist yn yr efengylau, ac a ddarlunir fel yn newydd da o lawenydd mawr i bawb, ac sydd yn dysgu fod Duw yn Dad holl genedloedd y ddaear, a phan yn ceryddu ei fod yn ceryddu mewn cariad, ac yn gwneuthur baich y pregethau nid fod teyrnas uffern, ond fel y dywed yr Iesu, fod teyrnas nefoedd yn neshau.

Desgrifir yr ymraniad yn Glandwr fel hyn: "Yr oedd yno rai yn dal yn dyn uchel-Galfiniaeth fel eiddo Dr. Gill, ac ereill yn dadleu yn lew dros Galfiniaeth o'r fath a ddysgid gan Andrew Fuller." Un William Evan oedd uchel-Galfiniad, a W. Griffiths yn Galfiniad cymmedrol, a David Phillips yn Arminiad. Edrychai y ddau flaenaf yn sur iawn ar eu gilydd fel "cyfeiliornwyr peryglus." Ni ddywedir dim am David Phillips, ac wrth hyny yr ydym yn casglu ei fod yn meddu mwy o'r yspryd tangnefeddus a Christnogol ac yn peidio galw enwau cas. Wele ddarluniad barddonol o'r sefyllfa: "Llettyodd rhai personau o gryn ddylanwad olygiadau croes i eiddo y rhan fwyaf o'u cydaelodau ar rai o brif athrawiaethau yr efengyl; ac wedi i bob moddion fod yn aneffeithiol i'w dychwelyd *i'r hen ffordd dda*, penderfynodd yr eglwys eu diarddel." Cafodd David Phillips felly a'i blaid eu tori allan, a hyn fu yn achlysur i sefydlu yr achos yn Rhydyparc. Y gweinidog cyntaf fu yno oedd y Parch. Owen Davies, Trelech, yr hwn a anwyd gerllaw Ffaldybrenin yn 1719, ac a urddwyd yn 1742 i fod yn gydweinidog â'r clodfawr Philip Pugh. Tua 1768 y daeth yn weinidog Trelech, ac am 20 mlynedd bu yn gymmeradwy iawn yno, ond o herwydd iddo dosturio, nid cytuno sylwer, ond tosturio dros y rhai a dorwyd allan o eglwys Glandwr, gan dybied fod yr eglwys yn ymddwyn yn rhy galed wrthynt, ac o herwydd iddo arwyddo parodrwydd i'w derbyn i eglwys Trelech, cauwyd y drws yn ei erbyn, a rhywbryd ar ol 1788 codwyd capel Rhydyparc, a bu ef yn gweinidogaethu yno dros weddill ei oes. "Diau," meddai Dr. R., "iddo gael ei dwyllo yn y bobl y cymmerodd eu plaid, a'u bod *wedi* gwyro yn llawer pellach yn eu golygiadau nag yr oedd efe erioed wedi meddwl, oblegyd trodd rhai o honynt allan [flynyddoedd yn ddiweddarach ?] yn Ariaid *ac yn Sosiniaid*, a chydnabyddodd ei gamgymmeriad cyn ei farw, a dymunodd gael ei gladdu yn mynwent Capel y Graig, Trelech, ac felly y bu, *er fod bedd wedi ei dori iddo yn mynwent Rhydyparc!*" Dyma baragraph awgrymiadol iawn, a gallesid ysgrifenu llawer arno, ond nid yw feallai yn werth y drafferth. Ni ddywedwn ond hyn, ei fod yn derfyniad rhyfedd i weinidogaeth o 20 mlynedd. Am y cyhuddiad o Sosiniaeth, nid yw, wrth gwrs, ond ensyniad maleisus neu anwybodus, un o'r ddau; ac am *wyro*, fe wyr aelodau Rhydyparc fod Undodiaeth yn seiliedig ar natur, ar reswm ac ar y Beibl, yr hyn sydd fwy nag y gellir dywedyd am y Drindod, Iawn Dirprwyol, Poenau Tragywyddol, a rhai pynciau ereill yn y ffydd Drindodaidd.

Y D. Phillips rhag-grybwylledig yw yr un a gyfeirir ato yn y llinellau canlynol, y rhai a gopïwyd oddiar gareg bedd yn mynwent Rhydyparc: "Here lieth the body of David Phillips, Pantmaen, in the Parish of Llanwinio, who departed this life June 11, 1825, aged 74 years." Dywed Mr. David Phillips, St. Clears, fel hyn: "David Phillips oedd yr un a fagodd fy nhad. Ni feddai blentyn ei hunan, ond fe fabwysiadodd nhad, ac a roddodd y cwbl ar ei ol iddo. Mab y Waunbwll, ger Glandwr, oedd, a bu yn pregethu yno (Glandwr) flynyddau fel pregethwr cynnorthwyol. Wedi iddo briodi aeth i fyw i Pantglas, Llanboidi, ac yno yr oedd yn byw pan y trodd allan o Glan-

dwr, ac yno yr oedd yn byw pan y dechreuodd bregethu yn Rhydyparc. Wedi hyny, prynodd fferm fechan o'r enw Pantmaen, ar bwys Rhydyparc, ac yno y bu efe farw. Ewythr fy nhad oedd, brawd ei dadcu."

T. L. R.

CYFARFOD CHWARTEROL Y PASG.

Cynnaliwyd Cyfarfod Chwarterol y Pasg eleni yn Rhydyparc, ar yr 16eg a'r 17eg o Ebrill. Y mae Rhydyparc yn sefyll ar dueddau Sir Benfro, ac oddeutu naw milldir o St. Clears. Y mae yma achos Undodaidd er's blynyddau lawer bellach; ac er ei fod yn sefyll fel pe bai wrtho ei hun, heb yr un arall yn agos iawn ato, etto, y mae wedi dal ei dir yn dda. Nid yw'r gynnulleidfa yr hyn y bu unwaith, am y rheswm fod yr achos wedi ei esgeuluso i raddau, ac nid oes ond addoliad pythefnosol yn cael ei gynnal yn y capel er's blynyddau, yr hyn sydd yn gryn rwystr i gynnydd y gynnulleidfa; ac y mae llawer o'r prif golofnau wedi eu cymmeryd ymaith gan angeu, rhai o honynt yn ddiweddar, a nemawr o rai ieuainc yn dod i lanw eu lle. Y mae yma gapel tlws a chyfleus, ac nid oes anmheuaeth nad oes lle i adfywio'r achos etto pe ceid tipyn o ymdrech. Y mae y gynnulleidfa yn awr dan ofal y Parch. J. Williams, a da oedd genym ddeall ei fod wedi ei adferyd o'i afiechyd diweddar. Bu y Cyfarfod Chwarterol yma o'r blaen, tua naw mlynedd yn ol, yr oedd llawer yn bresenol y pryd hwnw na chawsant y fraint o fod yn y Cyfarfod diweddaf. Y mae rhai wedi ymadael o'r gymmydogaeth, ac ereill wedi eu cymmeryd gan angeu ag oeddynt yn golofnau cedyrn i'r achos yn y lle, o'r cyfryw nis gallwn beidio enwi y diweddar Mr. Phillips, Blaentrafle, yr hwn oedd wedi bod yn mynychu Rhydyparc er pan yr adeiladwyd ef gyntaf, a pharhaodd yn ffyddlon amddiffynydd o wirioneddau Undodiaeth hyd ei fedd; ac y mae yn dda genym wybod fod ei fab, Mr. Phillips, Castellmawr, yn canlyn ei ol.

Yr oedd yn bresenol yn ystod y Cyfarfodydd y gweinidogion canlynol:—Y Parchn. R. J. Jones, M.A., Aberdar; W. James, B.A., Llandyssul; J. Davies, Alltyplaca; R. C. Jones, Llanbedr; J. H. Davies, Cefn; J. Evans, Gellionen; J. Williams, gweinidog y lle; J. Davies (B.), Cwmfelin; — Howells, Vicar, Llanwinio. Dechreuwyd y Cyfarfod nos Fercher gan y Parch. J. Evans, Gellionen, a phregethwyd gan y Parch. J. H. Davies, oddiar Ioan iii. 30: "Rhaid yw iddo ef gynnyddu." Amcan ei bregeth oedd dangos fod dyn wedi ei osod yn y byd yma er mwyn tyfu; fod Duw wedi planu ynom alluoedd, ac mai ein dyledswydd yw eu dadblygu a'u gwrteithio. Nid ydym oll wedi ein donio a'r un faint, ond fe ddylem oll wneyd defnydd priodol o'r hyn sydd genym. Ac fel y dangosir yn nameg y talentau, po fwyaf a dderbyniasom, mwyaf i gyd ddylem gynnyddu. Ar ei ol pregethodd y Parch. R. C. Jones, oddiar Ioan viii. 12, a Marc viii. 38, "Yr hwn a'm dylyno i, ni rodia mewn tywyllwch," &c. Sylwai fod cyfnewidiadau mawrion wedi cymmeryd lle yn y byd oddiar amser Iesu Grist. Y pryd hwnw,

yr oedd pawb bron yn ei erlid ac yn ei wawdio, ond erbyn heddyw y mae yn cael ei barchu hyd y nod gan ei elynion. Yr oedd ei fywyd yn un cyflawn, yn un na faidd neb ddweyd dim yn ei erbyn. Y mae dysgeidiaeth yr Iesu yn ardderchog, ond y mae ei fywyd a'i ddysgeidiaeth yn fwy rhagorol fyth. Dywedai rhai fod Cristionogaeth yn colli ei gafael ar y bobl, ond nid oedd ef (Mr. J.), yn ofni dim mewn cyssylltiad â Christionogaeth. Yna sylwodd ar y pwysigrwydd o fod yn feddiannol ar *ffydd yr Iesu*, ac nid yn unig ffydd *yn* yr Iesu, a dangosodd mewn modd eglur sut ac yn mha ystyr y mae Crist yn rhoddi goleuni i'r sawl sydd yn ei ddylyn.

Boreu dydd Iau, dechreuwyd gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca, gyda ei hwyl arferol. Yna traddodwyd y bregeth gan y Parch. R. J. Jones, oddiar Deut. vi. 17—18, "Gan gadw cedwch orchymynion eich Duw," &c. Nis gallwn roddi braslun o'r bregeth hon yma heb wneyd annghyfiawnder, a gobeithio y ceir ei gweled yn Yr Ymofynydd ettoyn gyflawn. Ar ol y bregeth, cafwyd y Gynnadledd, y Parch. J. Williams yn y gadair. Darllenwyd papyr galluog ar "Beth yw bod yn Gristion," gan y Parch. W. James, a llefarwyd ar ei ol gan y Parchn. R. C. Jones a R. J. Jones. Ymddengys fod papyr Mr. James i ymddangos yn Yr Ymofynydd. Yn y prydnawn, dechreuwyd y Cyfarfod gan y Parch. R. C. Jones, a phregethwyd gan y Parch. J. Davies, oddiar Actau xxiv. 25, "A Ffelix a ddychrynodd, ac a ddywedodd, dos ymaith ar hyn o bryd," &c. Sylwodd nad oedd Ffelix yn eithriad i'r teulu dynol yn gyffredin. Y mae amgylchiadau cyffredin yn fynych yn achosi edifeiriwch, ac y mae yn drueni eu bod yn cael eu gadael heb y ffrwyth priodol. Pan y mae dyn yn cael ei argyhoeddi, y mae gofalon y byd yma yn ei droi yn ol i'w gwrs cyffredin drachefn—y mae yn oedi ateb i'r alwad sydd yn cael ei rhoddi iddo. Yna nododd allan y canlyniadau sydd yn rhwym o ddylyn y cyfryw oediad. Ar ei ol pregethodd y Parch. J. Evans, oddiar Col. iii. 2—4, "Rhoddwch eich serch ar bethau sydd uchod," &c. Sylwodd fod yr Eglwys Gristionogol wedi ffurfio gwahanol reolau ar y sut y mae i ni osod ein serch ar bethau sydd uchod. Nododd allan dair *system*—y *system* Babyddol—yn gosod pwys ar allanol; y Brotestanaidd—yn gosod pwys ar gredo; a'r Undodiaid—yn gosod pwys ar fywyd; a dangosodd mewn modd meistrolaidd dueddiadau y gwahanol systemau yma. Yn yr hwyr dechreuwyd gan y Parch. J. Davies (B.), Cwmfelin; a phregethwyd gan y Parch. J. H. Davies, Cefn, oddiar Rhuf. xiv. 22, "A oes ffydd genyt ti?" Ar ei ol pregethwyd gan y Parch. R. J. Jones, Aberdar, oddiar Gal. vi. 2, 6; Salm lv. 22. Yna terfynwyd Cyfarfodydd da a llwyddiannus yn mhob ystyr. Cafwyd tywydd ffafriol, cynnulliadau lluosog, a phregethau galluog ac effeithiol. Gobeithiwn nad yw'r cyfarfodydd i fyned heibio heb adael ar eu hol fendithion lawer a pharhaol, ac fod y gynnulleidfa fechan yn Rhydypare i dderbyn yspryd newydd i weithio dros yr achos yn y lle. Da oedd genym weled fod yspryd brawdgarwch yn ffynu i raddau helaeth yn mysg Cristionogion yn y gymmydogaeth. Hir y parhao felly yw ein gweddi a'n dymuniad.

X. Y. Z.

SYLWADAU AR GYFARFOD RHYDYPARC.

Mr. Golygydd,—Yr oeddwn yn un o wrandawyr Cyfarfod Chwarterol Rhydyparc. Teimlais fy hun yn ddedwydd iawn drwyddynt oll, oddieithr rhyw ychydig a ddywedwyd yno, pa un a gofnodaf cyn diwedd y llythyr hwn, ond yr wyf fel Paul yn dymuno "nid o fewn ychydig, ond yn gwbl oll" i ddeall meddyliau y rhai a gymmerasant ran yn y gwasanaeth.

Trueni oedd ac yw, fod dim ag oedd wedi cael ei ddweyd yno, pan wedi costio lludded a thrafferth, yn methu a chael dylanwad priodol ar feddwl y cyhoedd. Cyfaddefaf, os yn herwydd rhyw achosion yn y gwrandawyr, megys rhagfarn plaid, difaterwch, a diffyg chwaeth am gael allan y gwirionedd, fod yr Areithiwr, yr *Orator*, yn rhydd oddiwrth y bai, sef yr annealldwriaeth, ac mai y gwrandawr a ddyoddefa am y camwedd; ond os dygwydda fod yr annealldwriaeth wedi dygwydd fod y llefarydd heb gael amser digonol i esponio ei olygiadau, a dweyd yr hyn a ewyllysiai, neu ei fod fel Mr. Gladstone, ddeng mlynedd yn ol, ar gynnygiad "Dadgyssylltiad," "Fod yr amser heb addfedu i hyny," gan gredu fod hyny yn dderbyniol gan y lluaws. Carwn gael eglurhad hwyr neu hwyrach genych chwi, Mr. Golygydd, neu gan ryw un arall a ddygwyddodd ddweyd hyny, yr hyn y methais, ac yr ydwyf etto yn methu yn llwyr a'i ddeall, sef: "Rhaid fod gwahanol sectau." "Rhaid" oddiwrth Dduw oeddwn i yn ddeall a "rhaid" felly yr oedd y rhai y bum yn siarad â hwynt ar ol hyny, ofnaf fod gormod o'r gwrandawyr wedi *ffansio* y drychfeddwl. Nid wyf yn sicr pwy a ddywedodd hyny, ac nid oes gwahaniaeth pwy, nid cofio pwy a ddywedodd, ond cofio pa beth a ddywedid, a hyny yn unol â rheswm, Ysgrythyr, a Phriodoleddau moesol a naturiol Duw, oedd fy neges i'r cyfarfodydd.

Cof genyf fod siars neillduol wedi cael ei roddi gan rai o honoch (chwi Mr. Golygydd 'fallai) am beidio cymmeryd y "*wrong train*" "a pheidio colli y *main spring*," y dylai pob dyn wneyd ymdrech am ddyfod yn y blaen, "*and to keep to the right*;" ond os byddwn yn methu a deall, anhawdd fydd *keep to the right*. Cof genyf hefyd i ryw un ddweyd, tebyg mai Mr. James, fod dau fath o ffydd, sef ffydd yr *orthodox*, a ffydd Iesu Grist, meddiannu yspryd yr Arglwydd Iesu. Arderchog iawn y darluniodd Mr. J.D. y drwg oedd yn cydfyned ag "oediad." "Dos ymaith ar hyn o bryd, a phan y caffwyf amser cyfaddas mi a'th wrandawaf;" etto nid wyf yn meddwl mai ar achlysur y testynau hyn y darfu y frawddeg "rhaid fod gwahanol sectau" gael ei hadrodd.

Nid wrth drafod Col. iii. 24, "Rhoddwch eich serch ar bethau sydd uchod," &c., nac oddiwrth "Ffydd" y Parch. J. H. Davies, nac ystranciau Pio Nono nac Eglwysyddiaeth a dechreuad Methodistiaeth, y cefais fy mlino, ond gan y frawddeg, "Rhaid fod gwahanol sectau."

Ofni yr wyf y gallasai y frawddeg hon achosi i luaws ddweyd, Nyni sydd yn iawn, ereill drachefn, ninau sydd yn iawn. Dywed y caeth Fedyddiwr wrth y rhydd Fedyddiwr, nad yw yn iawn cymmeryd cymmundeb na'i roddi i neb pwy bynag ond i'r caeth Bedyddiwr, dy-

weded Spurgeon a fyno. Medd un Bedyddiwr enwog yn Nghymmanfa y Bedyddwyr, '83, yn ngeiriau y gwrol Cromwell,—"I entreat you my brethren, I entreat you, by the mercies of God, to remember that it is possible that sometimes you may be mistaken." Y Methodistiaid a'r Uchel Galfiniaid a ddywedant, ni sydd yn iawn, oblegyd genym ni mae y pum' pwnc yn llawn, ac mae dynion da a duwiol yn perthyn i'n henwad, pa ddrwg gan hyny pa un a ydym yn credu gormod o gyffes ffydd Calfin ai peidio?

A chymmeryd yn ganiataol fod felly ddynion duwiol yn perthyn i bob enwad, onid yw yn drueni meddwl fod dyn duwiol yn ymboeni i ddysgu ereill y gredo gymmysglyd â'r hunan-wrthddywediad pendant. Trueni mawr fod y sect o ddynion crefyddol a gododd Dr. Watts i fyny wedi dylanwadu arno nes dysgu y pum' pwnc cymmysglyd hyny a achosodd gymmaint trafferth iddo, nes peri iddo yn ei ofid a'i hiraeth am y gwirionedd cyn ei farwolaeth, fyned o flaen ei Dduw mewn gweddi, yn gweddio am gael gwybodaeth oruwchnaturiol a oedd yn bosibl i dri fod yn un, ac i un fod yn dri? Dyma waith dyn duwiol, ond mae miloedd ag sydd wedi eu dysgu yn y "pump" heb ddigon o dduwioldeb, nac o chwaeth am y gwirionedd, yn marw yn ddigon tawel heb geisio ymestyn at weddi Dr. Watts, na gweddi Paul.

Meddyliwn am hen wr duwiol o ran ei gymmeriad, a'i galon yn dyheu am ddysgu y dô ieuanc i gredu yn y pum' pwnc, a dagrau dros ei ruddiau, yn ewyllysio planu yn eu meddyliau fod yn rhaid credu yn y cyfryw, oblegyd fod hyny yn anhebgorol tuag at gael bywyd tragywyddol. Pa beth a ddywed Joseph Parker am y sect hon? "Nid ffurfiau yw Cristnogaeth ond Yspryd—ni wneir hi i fyny o erthyglau a chatecismau, ac ardystiad o ddynol drefniadau a chredoau, credaf fod y rhai hyn wedi gwneyd mwy o niwed i Gristnogaeth nag a fedr Anffyddiaeth wneyd." Yr oedd Paul etto yn anfoddlon iawn i gredu rhywbeth, a gwneyd sectau i fyny o ryw sothach: "A hyn wyf yn weddio (eb efe) ar amlhau o'ch cariad chwi *fwy fwy mewn gwybodaeth a synwyr* fel y profoch y pethau sydd â gwahaniaeth," &c., &c. Yr oeddwn yn dyst o ddadl rhwng un ag oedd yn credu fod Crist wedi rhoddi iawn drosto, yn dweyd wrth ei gyfaill "fod ganddo yr un siawns ag ef drachefn os oedd yn colli yn hyny" yr ateb oedd "fod gan gredo ei dylanwad."

Meddylier am y canlyniad i ddyn o gymmeriad da yn perthyn i'r "Fam Eglwys," ei fod yn credu nad oes y gwahaniaeth lleiaf i ba ryw sect y perthyn dyn iddi. Yr oedd yn credu yn 39 o erthyglau, ac yn mysg y rhai hyny yr oedd yn cael ei ddysgu, ac yn ewyllysio dysgu ereill fod yn ddigon possibl i'r offeiriad i faddeu pechodau yr annuwiol ar ei wely angeu, ac yn ei lawn gariad at y pechadur yn cyrchu yr offeiriad yno i faddeu ei bechodau a'i drosglwyddo felly yn lân a dibechod i'r Nefoedd am byth.

Dywed Sterne:—"Mai plencyn gwan i ymddiried arno yw edifeirwch gwely angeu." Ai nid gwell fyddai heb sectau o'r fath?

Dywed Dr. Fairburn yn ei araeth o flaen Cymmanfa yr Annibynwyr, 1883:—"Nid oes neb dynion yn gymmaint pechaduriaid a'r cyfryw

hyny a dybiant eu hunain yn seintiau parod—ac nid oes un gelyn penach i ffydd, nâ'r dyn sydd yn *cashau meddwl rhesymol*, fel pe byddai o ddyfais Satan ac nid rhodd Duw."

Dr. Channing a ddywed yr un peth:—"No happiness will bloom to us hereafter, which has not its germs in our own rectified minds, which does not spring from an inward root of *wisdom* and of love."

Yr un peth yn gymhwys mae y ddau Ddr. hyn yn gymmeradwyo a Paul, "amlhau o honoch fwy fwy mewn gwybodaeth a phob synwyr." Felly hefyd am y frawddeg "keep to the right" yn Rhydyparc." Ond pan feddyliwn fod "rhaid fod gwahanol sectau," yr wyf o'r un farn a'r Parch. J. G. Rogers, Llundain, a chyd-olygydd Mr. Dale o Birmingham, "Ni wnaeth (ebe fe) neb fwy o gam â'r gwirionedd nâ'r attalfa a roddwyd ar yr ymofyniad am dano gan gredoau haerdybiol dynion hunanol a ffacledig. Rhoddant ar ddeall fod pob mater amheus wedi ei benderfynu ganddynt hwy, a dynodant pawb na chydolygant yn gyfeiliornus a phechadurus, ac mewn canlyniad ychydig a ddeuant at y Beibl fel plant bychain a meddyliau diragfarn i ymofyn am y gwirionedd, &c. Mesurant a ydynt yn cfengylaidd, nid wrth Air Duw—ond wrth eiriau croes i'w gilydd, ac y mae llawer o bethau ag y bu dynion goreu yr oesoedd o'r blaen yn methu cydweled arnynt, wedi cael ei benderfynu gan y rhai lleiaf o'r oesoedd hyn."

Dywedodd un ar ei bregeth yn Llwynyrhwrdd, "Mai y pechaduriaid mwyaf ddichon fyddai y *jewels* gan yr Arglwydd yn y byd a ddaw."

Dywed H. W. Beecher, "Gosodir rhy fach o bwys ar grefydd fel y dangosir hi â bywyd sanctaidd, os nad allaf fi gredu athrawiaeth yr Iawn trwy Grist, er i mi fyw ac ymarweddu mor debyg i Grist, a rhodio yn ei lwybrau, a dylyn ei holl esiamplau, diarddelir fi o'r eglwys. Ond os gallaf gredu athrawiaeth yr Iawn, er y gallaf fod yn mhell o fod yn debyg i Grist mewn buchedd, bydd i mi le yn yr eglwysi." Dywed mewn man arall, "nas gallai efe tra tu allan i furiau yr Asylum gredu y fath athrawiaeth." Ymddengys i mi nas gall y gwirionedd fod gan y gwahanol sectau, ac am hyny nad oes "raid iddynt fod," oblegyd os bydd tŷ wedi ymranu yn erbyn ei hun nis gall y tŷ hwnw sefyll. Mae H. W. Beecher yn cael ei gyfrif gan yr Annibynwyr, yn un o'r rhai blaenaf os nid y blaenaf oll. Y mae efe wedi tynu un pinacl, Dr. Watts un arall, J. R., Conwy, un arall, J. Jones, Llangollen, wedi *analyso* Pechod Gwreiddiol yn ei esponiad ar yr Rhufeiniaid. Y Parch. J. Davies, Moriah, gwr mawr mewn dysg, os yn brin i osod ei olygiadau allan, a ddywed yn ei esponiad o'i gyfieithiad o'r Hebraeg a ymddangosodd yn ddiweddar ganddo pan ar fin pedwar ugain oed, Hosea 6—7, fod efe o'r un farn â Mr. Jones pan y dywedodd, "Tori cyfammod a wnaeth Adda, torodd orchymyn eglur a hawdd ei gadw, heb na *rhaid nac achos*, gan ymadael â Duw, felly y gwnaethant hwythau."

Un enwog arall a ddywed, "Dymunwn weled enwad (nid enwadau) wedi ei ffurfio ar yr egwyddor fawr o fyw egwyddorion Crist. Dylai Cristnogion ddod allan i waredu Cristnogaeth oddiwrth y rhai sydd yn ceisio ei gwneyd yn rhes o erthyglau, ac un dosparth yn cynnyg am fywyd dosparth arall. Ai nid oes tir gwell o dan neu oddiar y ffurfiau

enwadol, lle gall Cristnogion gyfarfod â'u gilydd, ac od oes, ai nid yw yn bryd codi allan i 'mofyn am dano? Anhawdd genyf gredu nad oes tir gwell i'w gael, na llydan-Bresbyteriaeth, llydan-Esgobyddiaeth, llydan-Fethodistiaeth, &c. Ymffrostia Trindodiaid, ac Undodiaid, Arminiaid a Chalfiniaid, eu bod yn Gristnogion—ond pa le y gwelir hwy yn cydgyfarfod â'u gilydd ar dir cang Cristnogaeth, ac yn dangos fod Cristnogaeth yn fwy pwysig yn eu golwg na'u haerdybiau duwinyddol, gadawaf (ebe efe) am gael enwad fel hyn at ystyriaeth y cyhoedd." Yr oeddwn i yn hoff o feddylddrychau tebyg i eiddo Dr. Fairburn, Dr. Parker, J. G. Rogers, Beecher enwog, Channing, a Phaul, pa rai sydd yn ymddangos i mi yn llawer gwell i "keep to the right" nâ *dogmas* y sectau.

Dymunwn i Mr. Golygydd, neu rywun arall i fy hyspysu, a ddygwyddais i gamddeall y frawddeg hyny, "Rhaid fod gwahanol sectau." Rhaid oddiwrth Dduw oeddwn i ac ereill wedi ddeall, ond os mai rhyw raid arall oedd mewn golwg gan y llefarydd, byddaf yn wir ddiolchgar am air trwy gyfrwng ein misolyn.

Ydwyf, eich ufudd was,

YMOFYNYDD PENFRO.

Y DDAU ADGYFODIAD A'R AIL FARWOLAETH.

SYR:—Yn eich rhifyn am Mai, ymdrechais egluro beth yw Teyrnas Dduw. Fel y sylwais, nis gallaswn ond yn unig rhoddi bras ddarlun o honi. Ni chaniata eich gofod, nac efallai amynedd eich darllenwyr, i mi fyned i mewn i'r testyn mor helaeth ar rai prydiau ag y dymunwn. Pa fodd bynag, i lawer dyn ymofyngar, mae hanner gair weithiau yn ddigon i gyffroi meddylddrych newydd—meddylddrych na chafodd, efallai, erioed o'r blaen, ar ryw gyfran neu gilydd o air Duw. O'r hyn leiaf, dyma fy mhrofiad fy hun.

Yn awr, rhag i neb o'ch darllenwyr ag sydd yn teimlo dyddordeb yn y pwnc pwysig hwn wneuthur camsyniad yn ei gylch, iawn fyddai i mi, cyn myned yn mhellach, i ddweyd ychydig yn fyr ar ddau neu dri o bethau ag sydd yn dal perthynas agos â theyrnas Dduw.

Os yw eich darllenwyr yn cofio, sylwais yn fy ail lythyr fod teyrnas Crist, teyrnas Dduw, neu deyrnas nefoedd, yn frawddegau cyfystyr yn yr Ysgrythyrau. Felly y maent, ond dylai y darllenydd ddeall mai y rhan flaenaf o deyrnas Dduw—ei dechreuad, yw teyrnas Crist. Mewn geiriau ereill, terfyna teyrnas Crist yn nheyrnas Dduw. Yr un fyddant, ond bydd y blaenaf yn rhagflaenu yr olaf, ac yn diweddu ynddi. Gosodir hyn yn dra eglur gan yr Apostol Paul yn ei lythyr cyntaf at yr eglwys yn Corinth. "Yna," medd efe, "y bydd y diwedd (diwedd ar deyrnas Crist) wedi y rhoddo efe y deyrnas i Dduw a'r Tad; wedi iddo (Crist) ddileu pob pendefigaeth, a phob awdurdod a nerth, canys

rhaid iddo deyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed . . . . A phan ddarostyngir pob peth iddo ef (Crist), yna y Mab ei hun a ddarostyngir i'r hwn a ddarostyngodd bob peth iddo ef, fel y byddo Duw oll yn oll." Hyny yw, bydd teyrnas Crist i ddiweddu yn nheyrnas Dduw. Nid oes braidd eisieu sylwi mai ar y ddaear y bydd y ddwy. Ar y ddaear y bydd y pendefigaethau, a'r awdurdodau, a'r nerthoedd, ag sydd i gael eu darostwng. Digon tebyg mai un o honynt fydd Lloegr, ac yn sicr os y bydd y pryd hwnw y peth yw yn awr, sef yn un o alluoedd mawrion y byd. Ar y ddaear hefyd y bydd teyrnas Dduw. Pa fyd yn fwy addas a chymhwys i'r Saint wedi derbyn anfarwoldeb nâ'r ddaear ardderchog hon, ac ar yr amser hwnw yn fil mwy felly—yn ddaear newydd. Gofynwyd unwaith i'r dyn nodedig hwnw, Dr. Priestley, b'le y tybiai efe y byddai trigfan y Saint pan yn meddiant o anfarwoldeb. Ei ateb oedd, nad oedd yn meddwl fod un lle yn fwy addas nâ'r ddaear hon. Hyn hefyd yw tystiolaeth yr Ysgrythyrau.

Y peth nesaf ddylid egluro i'r darllenydd yw hyn, sef mai ar ail ymddangosiad yr Arglwydd Iesu ar y ddaear, y cymmer yr adgyfodiad cyntaf le, oblegyd mae *dau* adgyfodiad i fod. Saint Duw yn unig a gant y fraint o gyfranogi o'r adgyfodiad hwn. Byddant i fyw ac i gyddeyrnasu â'r Iesu fil o flynyddoedd, sef trwy ystod ei deyrnasiad. Gelwir hwynt gan yr Apostol, "Y rhai ydynt eiddo Crist yn ei ddyfodiad ef:" 1 Cor. xv. 23. Mewn man arall (1 Thes. iv. 14) geilw yr Apostol hwynt, "Y rhai a hunasant yn yr Iesu." Gwynfydedig a sanctaidd fydd y sawl a gyfranogant o'r adgyfodiad hwn: Dat. xx. Ni fydd i'r ail-farwolaeth awdurdod arnynt. Hwy a fyddant yn offeiriaid i Dduw ac i Grist, ac anrhydeddir hwynt â rhan yn ngweinyddiad ei deyrnas: Mat. xix. 28; Luc xix. 17—19. I rai y rhodda awdurdod ar ddeg dinas, i rai ar bump, mwy neu lai, yn ol eu galluoedd a'u cymhwysderau. Byddant oll wedi eu hanfarwoli, ac yn meddu ar allu a doethineb a dderbyniant oddiwrth eu Brenin ar fynydd Sion.

"Yna y bydd y diwedd," medd yr Apostol, sef diwedd ar deyrnas Crist. Dealled y darllenydd fod yr Apostol yn neidio (os priodol dweyd felly) dros fil o flynyddoedd rhwng diwedd y drydedd adnod ar hugain a dechreu yr adnod nesaf, sef dros deyrnas Crist. Wedi cyflawnu dybenion anfeidrol ddoethineb "rhodda y deyrnas i Dduw a'r Tad." Y pryd hwn bydd llywodraethwyr y cenedloedd wedi llwyr ymostwng i'r Iesu. Bydd y ddaear yn llawn o wybodaeth yr Arglwydd megys y mae y dyfroedd yn toi y mor. Bydd y gyfraith wedi myned allan o Sion, a gair yr Arglwydd o Jerusalem, a hyny mor helaeth fel yr â pobloedd lawer a dywedant, "Deuwch ac esgynwn i fynydd yr Arglwydd (Sion), i dŷ Duw Jacob, ac efe a'n dysg ni yn ei ffyrdd, a ni a rodiwn yn ei lwybrau ef." Byddant wedi curo eu cleddyfau yn sychau, a'u gwaewffyn yn bladuriau. Ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach!

Y pryd hwn hefyd, sef pan y rhoddo yr Iesu y deyrnas i Dduw a'r Tad, ar ddiwedd y mil blynyddoedd, y cymmer yr ail adgyfodiad le, sef adgyfodiad pawb a fyddant yn gyfrifol i Dduw am y defnydd a wnaethant o wybodaeth ei air. Mor a thir a roddant i fyny eu meirw,

Y byw a'r meirw adgyfodedig—pawb a ddygir i farn. Y llyfrau a agorir, a derbyniant yn ol eu gweithredoedd! Y sawl a fydd eu henwau ar lyfr y bywyd a wisgir ag anfarwoldeb, ac a etifeddant deyrnas Dduw. Ond y rhai annuwiol—"Yr ofnog, a'r digred, a'r ffiaidd, a'r llofruddion, a'r putteinwyr, a'r swyn-gyfareddwyr, a'r eilun-addolwyr, a'r holl gelwyddwyr," a fwrir i'r llyn o dân, hyny yw, a ddiddymir, fel y diddyma yr elfen ddinystriol hono bob peth a deflir iddo. Dyma yr Ail Farwolaeth—ail i'r sawl a adgyfodwyd. Beth bynag yw athrawiaethau duwinyddion yn nghylch cosp yr annuwiol, marw fydd ei ran, medd yr Ysgrythyr, a marw yn dragywyddol. Nid oes iddo ran yn nheyrnas nefoedd.

Pan roddo yr Iesu y deyrnas i Dduw a'r Tad, peth mawr arall a gymmer le. Angau, y gelyn diweddaf, a ddinystrir. Llyncir ef mewn buddugoliaeth! Ni fydd neb mwy ar y ddaear, ond anfarwolion, ac yn eu plith Duw oll yn oll! Sych ymaith bob deigr oddiwrth eu llygaid hwynt. Ni fydd marwolaeth mwyach, na thristwch, na llefain, na phoen, oblegyd bydd y pethau cyntaf—y pethau yn y bywyd hwn dan lywodraeth pechod ac angeu—wedi myned heibio. Ond mae y pwnc yn rhy oruchel i mi helaethu arno. Teimlaf fy meddwl yn suddo tan ei bwys. O ddyfnder golud doethineb Duw yn Nghrist Iesu ein Harglwydd! Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef. Beth yw mawredd a gogoniant y byd, beth yw ei glod, a'i gyfoeth, i'w cystadlu â'r gwynfydedigrwydd sydd ar gyfer plant Duw! Anwyl ddarllenydd, os wyt am gael dy enw yn ysgrifenedig yn llyfr y bywyd, yn awr yw yr amser.

Birkenhead, Mai 7, 1884. D. L. Evans.

CHRISTADELPHIAETH.

"Cyfnewidiad barn yn nghylch Teyrnas Crist."

Syr,—Yn rhifyn Chwefror, 1884, yr wyf yn cael a ganlyn dan y pen-awd uchod, gan y Parch. D. L. Evans, Birkenhead. Dywed, "Mewn perthynas i'r athrawiaeth newydd y dywedir fy mod yn bregethu, athrawiaeth na chlywodd Undodiaid Cymru o honi o'r blaen, er dim a wn i, ond nid athrawiaeth newydd yw. Mae yn hen athrawiaeth, mor hened â'r proffwydi Iuddewig. Athrawiaeth Crist a'r Apostolion ac athrawiaeth yr Eglwys Gristnogol trwy y ddau ganrif gyntaf o'i bodolaeth." Lled awgryma Mr. Evans fod yr enwad newydd yma (sef y Christadelphiaid) yn hollol Undodaidd yn eu barn am y Bod Dwyfol. Y mae yn ymddangos yn hynod ddyeithr, os yw yr "athrawiaeth newydd" yma yn sylfaenedig ar y Beibl, fod Undodiaid Cymru heb erioed wybod dim am dani! Ac hefyd fod Mr. Evans wedi treulio y rhan

fwyaf o'i oes yn pregethu Undodiaeth i Gymru! Yn wir y mae y syniad hwn braidd yn ddigon i beri i mi * * * * synu fod Undodwr mor *oleuedig* â Mr. Evans mor *wan* â choleddu yr "athrawiaeth newydd" yma. Y mae yn *naturiol* i ddynion o enwadau ereill i droi yn Undodwyr, oblegyd rhag y blaen y mae y byd meddylgar yn myned. Y mae clywed am un a dderbyniodd oleuni unwaith yn myned yn ol i goleddu syniadau mor afresymol a ffol yn *annaturiol* iawn. Gan fy mod i yn gwybod rhywbeth am yr "athrawiaeth newydd", yma, ac wedi bod yn *aelod* am flynyddau gyda'r *Christadelphiaid*, ond yn *awr* yn Undodwr er ys chwe' mlynedd, a gwn am lawer gyda mi wedi eu gadael, y mae braidd yn naturiol i mi ddweyd gair o berthynas i'r pwnc. Y mae yn perthyn i'r enwad "newydd" yma tuag *un-ar-bymtheg-ar-hugain* o *Articlau* ffydd, a chyn y gall dyn fod yn gadwedig, y mae yn orphwysedig arno eu credu hwynt oll! Yn yr ystyr hyn, ynte, y mae Mr. Evans wedi *aberthu* ei *ryddid* a gosod ei hun yn *gaeth* dan gadwynau yr *articlau* hyn.

Mi gaf enwi rhai o *articlau* eu ffydd, nid oes genyf amser nac amynedd i enwi yr oll o honynt. Un o'u *articlau* yw, nad oes adgyfodiad na sefyllfa ddyfodol i blant bychain, neu y rhai ag sydd yn marw yn eu mabandod! Mae hona yn athrawiaeth *galed* i dadau a mamau duwiol i feddwl na chant weled byth mwy eu hanwyliaid bychain a diniwed. Yn ol fy marn i y mae plant bychain yn llawer mwy cymhwys i deyrnas Crist nâ miloedd o ddynion proffesedig. Credant hefyd nad oes adgyfodiad i'r *paganiaid* a phawb ag sydd heb glywed eu hefengyl hwy! *Article* arall yn eu ffydd yw *adgyfodiad cnawd* ac *esgyrn* o'r bedd, a bod hyny yn hanfodol i fywyd! Credant y bydd i'r Bod Mawr i gyfodi y saint annghyfiawn yn *unig* er mwyn arllwys ei *ddialedd* arnynt yn yr ail farwolaeth! ac hefyd y bydd i wrthddrychau yr adgyfodiad i ymddangos o flaen brawdle Crist ar y ddaear, ac y bydd hyny i gymmeryd lle yn Jerusalem yn fuan iawn! Hefyd, mai *etifeddiaeth* y saint yw y *ddaear*, mai hwynt-hwy fydd *llywodraethwyr* a *meddianwyr* yr holl fyd yn y dyfodol! Y bydd yr Arglwydd Iesu yn Frenin y byd, a'i orsedd yn Jerusalem! Yn wir, mewn rhyw ystyr y mae hynyna yn "athrawiaeth newydd," nid yn unig i Undodwyr, ond hefyd i *ddysgeidiaeth* Crist, fel y caf brofi yn y nesaf.

Abertawe. B. Bennett.

Tra yr oedd Robert Burns, bardd enwog Ysgotland, yn yr adeg yr oedd yn fwyaf poblogaidd, un diwrnod yn cerdded yn mraich boneddwr ar hyd yr heol, canfu ddyn tylawd o'i bentref genedigol yn myned heibio iddo. Gadawodd y bardd y boneddwr ar unwaith, aeth i ysgwyd llaw â'i gyd bentrefwr, a cherddodd y ddau yn mlaen fraich-yn-mraich. Tra'r oedd Burns yn teithio fel hyn daeth dyn coegfalch i'w gyfarfod, a dywedodd na ddylai siarad â dyn â gwisg mor salw â hyny am dano. Cyffrodd hyn yspryd y bardd a dywedodd, "Yr ynfyd, nid wyf fi yn siarad â'r wisg, ond â'r dyn sydd oddi fewn iddi."

NODYNAU EGLURHAOL AR "DELYN DEWI."

(*Parhad o Tudalen* 80.)

Mewn ychwanegiad i'r hyn a ddywedwyd yn flaenorol (tud. 78) ar "Gais y Cardotyn," mae y Parch. T. Ll. Jones yn anfon a ganlyn allan o "*Chambers's English Literature:*" Y Parch. Thomas Moss, yr hwn a fu farw 1808, oedd weinidog Brierley Hill a Trentham yn Staffordshire. Yn 1769 efe a gyhoeddodd gyfrol fechan o farddoniaeth, ac allan o hwnw dyfynwyd un darn gan Dodsley i'w *Annual Register*, ac oddiyno cafodd ei drosglwyddo (dan enw gwahanol awdwyr) bron i bob casgliad a phob cyfnodolyn. Enw y darn yw "The Beggar" (weithiau "The Beggar's Petition"), ac y mae'n cynnwys syniadaeth deimladol a naturiol, wedi ei gosod allan mewn modd coeth (58).

(90) "Minau *guall*, wael ddall ddyn, A af at *Hael* i ofyn; Od af at Ifan Dafydd, *Ifor* yw, efe a rydd." Cyfeiriad at Ifor Hael (?). Beth ydyw ystyr *cuall* neu *cuell?* Mae y geiriaduron yn amheus. Ai ffwl ydyw yr ystyr yma? Cyllell hir cuell a llem. Cuall cleddyf byr o wain. Pob dulliad caead cuall, Mal llong dros ymyl y llall.

(91) Dafydd Jones o'r Dolau. Ai Dol-wlff ynte Dolau Canol? Dol-wlff meddai Gwynionydd, yr hwn a ddywed iddo fod yn cadw ysgol hefyd yn Llansawel. Tybia awdwr "Llyfryddiaeth y Cymry" mai efe oedd y D.J. a gadwai Ysgolion Symmudol Griffith Jones, Llanddowror, yn nghymmydogaeth Dinbych tua 1750. Cyhoeddwyd ganddo yn 1765 "Eucharista, neu Draethawd am y Sacrament swpper yr Arglwydd. A scrifenwyd gyntaf yn Lladin mewn Prydyddiaeth gan y Dysgedig Hugo Grotius. Newydd ei gyfieithu i'r Gymraeg, gan Mr. Dafydd Jones, o Lanwenog. At ba un y chwanegwyd, Agoriad Byrr o'r Salm 37. Ynghyd â Gweddi'r Tywysog Eugene. Caerfyrddin, Argraffwyd tros yr Awdwr gan Ioan Ross 1765 (Pris 6c.) 40 tdd." Ceir cyfeiriad at ei hoffder o weled gwledydd tramor yn y pennill hwn:

> Nid oedd, yn ein dyddiau, un dyn well adwaenai
> Bob hynod wych fanau a bryniau 'n ein bro;
> Ai i'r India fawr un daith, yn ol y doi eilwaith
> O'r fordaith a'r ymdaith i'r amdo.

Nid wyf wedi cael allan amser ei farwolaeth. Gall yr ystyriaeth ei fod wedi marw ar ol "Dau Lwyd o Goedlanau" fod yn beth help. Cawn fod y Parch. D. Llwyd, Brynllefrith, gweinidog Llwynrhydowen, wedi marw yn 1779, Chwefror 4, yn 54 oed (108), a'i nai Thomas yn 1789. Y Thomas hwn oedd Athraw yn Ngholeg Caerfyrddin, a mab i John Lloyd, Coedlanau. Pa bryd y bu John farw nis gwn, ond gellir casglu oddiwrth lythyr y Parch. Tim. Davis, Evesham, at Mr. James Thomas, Rhydowen, dyddiedig Awst 5, 1852, ei fod yn fyw yn 1788. Fel hyn y dywed: "I recollect very well at the *neithor* of David Gwardafolog at Pentre Rhydowen, his father's house, in the year 1788, John Lloyd of Coedlanau, my father and Charles Lloyd

talking about his (C.Ll.) visit to England." Yn awr at ba ddau o'r tri gyfeirir?

(92) Awdwr gwreiddiol "Can y Ceiliog Du" oedd y Parch. Richard Jago, M.A., yr hwn a anwyd yn Brandesert, ger Henley, yn Arden yn 1715, ac a fu farw 1781. Yr oedd yn Ficer Snitterfield. Sylwer mai eiddo Mr. Davis yw Yr Addysg. Yn y pennill diweddaf ceir enghraifft arall o'r modd yr arferai y golygydd wella gwaith yr awdwr. Cymharer 173, yn Emynau Mawl a Gweddi.—(*Christian Life*).

(99) Rhoddwyd ychydig o hanes D. J. Rees yn Ymofynydd Ebrill, ond os am ddarlun o ddyn da, y fath y carai pob un o honom fod, darllener llinellau yr hen Ddafis:

B'le mwy cair, neu 'rioed y cawd Yn ein bro mor haeled brawd?
Wedi 'i ddysgu gan ei Dduw I garu pawb o ddynol ryw.
Ni bu gelyn iddo'n bod Ar y ddae'ren hon erioed;
Bydd pob enaid iddo'n ffrynd Yn y nefoedd lle mae'n myn'd.
Cariad, serch, llawenydd, hedd, Fyth dywynent yn ei wedd;
Nofio moroedd cariad ca Gyda Duw a dynion da.

Dywed hen wraig y bum i byw flynyddoedd dan ei chronglwyd, mai y Parch. John Davies, Capel-y-Groes, wedi hyny, Castellnedd, fu yn dadleu â'r offeiriad yn Ystrad. Gweler Ymofynydd Ebrill, tud. 91.

Cyhoeddodd Roscoe ddarn o farddoniaeth yn dwyn yr enw "Christian Morality" ac yn cynnwys tair rhan, "Duties to God," "Duties to our Neighbours," and "Duties to Ourselves." Nid wyf wedi gweled y llyfr, nac yn gwybod dim manylion, ond ymddengys i mi yn debyg iawn fod "Dyledswyddau Perthynasol" (90) yn gyfieithad (o'r llyfr hwnw.)

(101) Am y Parch. Thos. Thomas, gwr ieuanc yr ysgrifenwyd cofiant dyddorol am dano yn y *Mon. Rep.*, gan Dr. Charles Lloyd, dywed y Parch. T.T. mewn llythyr dyddiedig Mawrth 8, 1884, "Thomas Thomas, mab Thomas Thomas, Llanfair, o Jane, ei wraig (merch David Lloyd, Brynllefrith), a anwyd Medi 16, 1789, ac a fu farw Awst 24, 1818, ac a gladdwyd yn Mhant-y-Defaid, y cyntaf a gladdwyd yno."

"Pan ddel o'i ofidiau a'i boenau o'r bedd
Yn nghol Duw mae'r Cristion yn huno mewn hedd;
Yn foreu cwyd dranoeth o'i feddrod i fyw,
Ar dir iechydwriaeth yn iach gyda Duw."

(101) Gwel y cyfeiriadau ereill at ei afiechyd, 89, 113, 114, a'r "Cofiant," tud. xv. Ar adeg yr afiechyd cyntaf, wrth bob tebyg, y gwnaeth ei gyfieithad rhagorol o "Bywyd Duw yn Enaid Dyn," yr hwn a gyhoeddwyd 1779. Oddiwrth y *List of Subscribers* cawn mai Henry Jones, Y.H., oedd yn byw ar y pryd yn Tyglyn-isaf. Mae yn anhawdd dybygwn i neb ddarllen y "Ffarwel" heb deimlo yn well o'i blegid. Caraswn wneuthur dyfyniadau helaeth, ond nid yw gofod yn caniatau. Sefydlodd yn y weinidogaeth Ionawr 1, 1769, a bu byw yn Plasbach, Ciliau hyd 1781, canys yr oedd y Parch. Dr. George Lewis gydag ef yno am 18 mis cyn myned i'r Coleg i Gaerfyrddin, yn Awst, 1781.

Yn lle Mi geisiwn (102) darllener *Mi gawswn* amser hwy mewn llafur, Ar y bryniau *ma's a'r* maesydd, ai Maes ar y=*allan ar* y maesydd olygir? Ganwyd yr enwog a'r rhagorol Philip Pugh yn Hendref, Llanpenal, yn 1769. Priododd â merch Coedmorfawr, ger Llanbedr. Bu farw Gorph. 12, 1760. Ewythr i Mr. Davis oedd Josuah Thomas, awdwr Hanes y Bedyddwyr, ond pa un ai brawd ei dad neu frawd ei fam nis gwn. Ganwyd ef yn y Tyhen, 1718, bu farw 1797. Brodyr iddo oedd Timothy (1720—1768) a Zechariah (1727—1816) Thomas o Aberduar. Plant oedd y rhai hyn i Thomas Morgan Thomas o'r Tyhen, wedi hyny o Esgair Ithri, a neiaint, yn ol barn Gwynionydd, i Simon Thomas, awdwr "Hanes y Byd a'r Amseroedd" (1721), gwr genedigol o ymyl y Cilgwyn, a fu yn pregethu am beth amser yn y Cilgwyn, Caeronen, &c., ac a fu farw tua 1743. Y mae Llangeler yn Sir Gaerfyrddin, ac nid yn Ngheredigion (105n.). Y Parch. David Evans a anwyd yn Blaenpistyll, 1707—1773. Y Parch. D. Gronow (111) a aeth i Goleg Caerfyrddin yn 1757, sefydlodd yn Nghiliau a'r Neuaddlwyd tua 1760, symmudodd i'r Bala 1769, oddiyno symmudodd i Mixendem yn Yorkshire.

Oddiwrth y llinellau canlynol mae Dr. Rees yn tynu casgliad anffafriol i un o Athrawon Coleg Caerfyrddin.

> "Difyrwch gwag a dull y dre A droes fy enaid gwan o'i lle;
> Mi ais gyda rhwysg fy ienctid Dros dro i adael Duw yn ynfyd."

Gallwn feddwl nad oes yma fawr sail i'r awgrymiad. Cymharer y llinellau hyn

> "'Rwy'n dechreu gweled rhan o Ganaan, Mae'r âr yn dechreu altro 'i hanian,
> 'Rwy'n profi mwy o naws y nefoedd Yn awr yn agos i'w hardaloedd."

â geiriau W. W., Pantycelyn.

> 'Rwyf yn dechreu teimlo eisoes Beraroglau'r gwledydd draw,
> Gyda'r awel ber yn hedeg; Diau fod y wlad ger llaw.
>
> Emynau Mawl a Gweddi, 203.

Mae y meddylddrych wedi ei fenthyca allan o hanes Columbus. (112) "Man wants but little here below, Nor wants that little long," sydd ddyfyniad nid allan o Cowper ond allan o Goldsmith, edrycher "Edwin and Angelina" yn y "Vicar of Wakefield." Mor bert y mae Mr. Davis yn gweithio'r meddylddrych allan:

> Dyn nis gofyn ond ychydig Na'r ychydig hyny'n hir;
> Yn eu beddau caiff cybyddion Eu digonedd bawb o dir;
> Tir a leinw'r gol a'r galon, A'r ddau lygad fyny'n lan,
> Nes bo'r geg yn gwaeddi *Digon*, Gair na chlywd erioed o'r blaen!

Y Parch. Josiah Rees (1744—1804) oedd weinidog Gellionen, a chyfaill mawr i'r awdwr. Yr oedd Owen yn 1780 yn 10 oed. Daeth wedi hyny i fod yn un o gwmni y *firm* enwog o lyfrwerthwyr a adnabyddid fel Longmans, Rees, & Co. Y *firm* hwn a gyhoeddodd argraffiad cyntaf

Telyn Dewi, 1824. Bu farw Owen Rees, Medi 5, 1837, yn 67 oed. (112, 116).

Awdwr gwreiddiol "Breuddiwyd y Gwr Goludog" (114) oedd Pierre Patris, yr hwn a fu farw yn Paris yn 1672, yn 88 oed. Dywedir mai ychydig ddyddiau cyn ei farw y cyfansoddodd y llinellau.

LE SONGE.

Je songeois cette nuit que de mal consumé,
Côte a côte d' un pauvre on m' avait inhumé,
Et que n' en pouvant pas souffrir le voisinage,
Et mort de qualité je lui tins ce langage ;
Retire-toi, coquin, vas pourir loin d'ici :
Il ne t'appartient pas de m'approcher ainsi.
Coquin, ce me dit-il d'une arrogance extrême,
Vas chercher tes coquins ailleurs, coquin toi-même ;
Ici tous sont égaux, je ne te dois plus rien :
Je suis sur mon fumier, comme toi sur le tien.

The English quoted in Wakefield's Memoirs of his Life.

"I dreamt, that buried in my fellow-clay,
Close by a common beggar's side I lay ;
And as so mean an object shocked my pride,
Thus like a corpse of consequence I cried :
"Scoundrel, begone ! and henceforth touch me not ;
More manners learn, and at a distance rot."
"How, scoundrel !" with a haughtier tone cried he;
Proud lump of earth ! I scorn thy words and thee.
Here all are equal ; here thy lot is mine,
This is my rotting place, and that is thine."

Mi debygswn yn fy mreuddwyd 'mod i wedi myn'd i 'medd,
Ac wrth f' ystlys y cardotyn hagra 'i wisg a gwaela 'i wedd ;
'Dall'swn odde' cwrdd a'i fralau, na'i groen bawlyd tenau glas ;
Fel y gwedd'sai i un o'm graddau, mewn digllonedd llefais ma's ;—
"P'odd y beiddi yma ddrewi, wrth fy nhrwyn, y brilwm brwnt ?
Ond os myni gael lle i bydru, parcha fonedd, nesa hwnt :"
"Taw'r ucheldrem dwl a'th wegi," oedd yr ateb ges i 'nol,
"Wfft i fawredd carn o lygredd, Ffwrdd â'th falchedd ffiaidd ffol.
Yma darfu pob gwahaniaeth ar un benaeth fu'n y byd ;
Cydraddolion ydyw'r meirwon heb un goron oll i gyd ;
Pawb yn gytun, mae i'r Cardotyn ac i'r Brenin yr un bri ;
Mewn un bedd 'r ym ni i gydbydru, P'am y Dwlyn digi di ?"

S. N. S.

Y MEUDWY.

I'r ogo' sydd rhwng y creigydd,—mudion
A'r meudwy, o herwydd
Yno'n dawel o dywydd, y byd dig,
Mewn cell unig y mae'n cael llonydd.—Essyllt.

"ADDYSG Y DEUDDEG APOSTOL."

Os ydym yn cofio yn iawn, ymddangosodd cyfeiriad byr at yr uchod yn ddiweddar yn Yr Ymofynydd." Mae yn llyfryn dyddorol, yn ein harwain yn mhell yn ol ar y ffordd tuag at darddiad Cristionogaeth fore. Tybir ei fod wedi ei gyfansoddi tua'r flwyddyn 120, ac os felly yn ol rhai o feirniaid goreu yr oes (Gwel *Teachers' Notes* am Ebrill), mae ei ddyddiad yn gynnarach nâ rhai o ysgrifeniadau y Testament Newydd, megys Efengyl Ioan, Epistolau Ioan, &c. Darganfyddwyd y llawysgrif oddeutu wyth mlynedd yn ol gan Esgob Bryennios, yn llyfrgell y Bedd Santaidd yn Constantinople. Yr oedd yn cynnwys heblaw "Addysg y deuddeg Apostol," Epistolau Clement, Epistolau Barnabas, Deuddeg Epistol Ignatius, &c. Cyhoeddwyd Epistolau Clement ar y pryd, a darfu i Dr. Lightfoot, esgob presenol Durham, gorffoli yr hyn oedd newydd ynddynt mewn argraffiad newydd o'i lyfr dysgedig ar Clement, a ddaeth allan gyntaf yn 1869. Mae yn glod i Esgob Bryennios na fu mewn brys i ddwyn y llyfr newydd yma allan. Cymmerodd amser i wneyd archwiliad manwl i ddilysrwydd y llyfr, ac i ystyr ei gynnwysiad, a meddylir yn aml nad oes lle i amheu ei fod yn gynnyrch cyfnod boreu iawn yn hanes Cristionogaeth, ac o herwydd hyny yn llyfr sydd yn cario gydag ef lawer iawn o gywreinrwydd. Dywed Dr. Farrar yn ei sylwadau arno yn un o'r cyfnodolion, ei fod yn ddiffygiol yn yr arwyddion anmhennodol hyn o ysprydoliaeth sydd yn nodweddu ysgrifeniadau y Testament Newydd. Hawdd genym gredu hyny, oblegyd pe amgen, byddai yn naturiol, ac o angenrheidrwydd yn unol â'r ddeddf hono—*The survival of the fittest*—wedi ffeindio ei le yn nghorff y Testament Newydd ac wedi bod yn gyfrwng ysprydoliaeth i filiynau yn lle aros yn guddiedig am ganrifoedd a gweled goleuni dydd yn y diwedd yn nghongl lychlyd rhyw hen lyfrgell. Ond os nad oes ynddo yspryd y peth byw sydd yn gwneyd yr Efengylau ac Epistolau Paul fel yr anadl gyda'r pedwar gwynt yn chwythu ar ddyffryn esgyrn Ezeciel, ac yn creu bywyd yno, etto mae yn deffroi ein cywreinrwydd pan y cofiwn yn nghanol y dirywiadau ag mae'r Eglwys wedi bod yn ddarostyngedig iddynt, y gwahaniaethau barn, a'r ymrysonau sydd yn cadw Cristionogion oddiwrth eu gilydd, fod genym ni yma ddrych trwy yr hwn y gallwn weled beth oedd addysg, safon ffydd, cyfundrefn eglwysig y Cristionogion hyny oeddent yn byw yn agos iawn at gyfnod yr Apostolion. Gwyddom o'r blaen fod Cristionogaeth wedi dirywio yn fawr o'r safle gyntefig, nad yw Cristionogaeth yr Eglwysi yn awr ddim yn adlewyrchiad o Gristionogaeth Crist, a pha bellaf yn ol yr awn ni, yr ydym o hyd yn dyfod at fwy o symlrwydd, nes mae'r cwbl yn y diwedd yn ymgolli yn yr egwyddor fawr o eiddo'r Iesu sydd wrth wraidd pob peth gwerthfawr mewn Cristionogaeth— cariad at Dduw a chariad at ddyn. A'r un dystiolaeth ydym yn gael yn y llyfryn hwn, yr hwn, yn ol Esgob Bryennios, sydd yn cin harwain yn ol yn agos at ddechreuad yr ail ganrif.

Mae dau beth yn nodweddu y traethawd hwn, fel holl gynnyrchion oesau boreu Cristionogaeth, o'r Testament Newydd hyd at arysgrifau beddfeini y dysgyblion cyntefig yn y *Catacombs* yn Rhufain. (1) Y flaenoriaeth a roddir i addysg foesol ac ymarferol. (2) Absenoldeb y pethau hyny a *elwir* yn athrawiaethau neillduol yr Efengyl. Dechreua y llyfr trwy osod i lawr y ddau orchymyn mawr, y rheol auraidd, yn nghyd â rhanau o'r bregeth ar y mynydd, yn gystal â moeswersi ereill mwy gwreiddiol, ond er hyny yn gwisgo i raddau pell nodweddion addysgiadau y Testament Newydd. Gwahaniaetha rhwng ffordd einioes a ffordd angeu, ac mae'r gwahaniaeth yn cael ei osod i orphwys nid ar gred ac athrawiaeth ond ar sylfeini ymarferol a moesol. Gyda golwg ar ei addysg athrawiaethol, dysga y syniadau am Dduw, adgyfodiad, barn ac anfarwoldeb. Er enghraifft, dyma gipolwg ar ei athrawiaeth mewn gweddi fer: —"Ein Tad, yr ydym yn diolch i ti am dy enw santaidd a beraist i dabernaclu yn ein calonau, ac am y wybodaeth a'r ffydd ydwyt wedi wneyd yn wybyddus i ni trwy Iesu dy Was; i ti y byddo'r gogoniant am byth." Sylwer fod yr Iesu yn cael ei alw yn was yma, ac mewn manau ereill yn blentyn Duw, a dyna ei safle yn yr holl lyfr. Nid oes dim yma sydd yn sawru o Dduwdod Crist, dim am y cenedloedd gwyrthiol na'r cyfeiriad at yr olwg uniawngred am yr Iawn. Nid oes son hefyd am gosp dragwyddol. Gyda golwg ar ddefodaeth Eglwysig, mae Swpper yr Arglwydd yma yn goffadwriaeth syml a phrydferth, ac mae yn amlwg nad yw lefain Eglwysyddiaeth ddiweddar ddim wedi ymlithro i mewn etto i addoliad y Cristionogion. Bedydd credinwyr sydd i'w gael yma, ac nid oes son am fedydd plant. Y dull ydyw trochiad, er fod bedydd trwy dywallt yn cael ei gydnabod. Gyda golwg ar lywodraeth Eglwysig, mae yn amlwg oddiwrth y llyfr hwn mai y drefn gynnulleidfaol oedd yn bodoli y pryd hwnw. 'Does dim gwahaniaeth yn cael ei wneyd rhwng esgobion a diaconiaid, ac nid oes mwy o awdurdod yma nag yn y Testament Newydd dros Esgobyddiaeth fawreddog a rhwysgfawr Eglwysi mawrion cred. Mae yma hefyd gred galonog yn ail ddyfodiad Iesu Grist ar gymmylau'r nef. Dyna ddysgwyliad cyffredinol y dysgyblion boreu, ac mae'r hiraeth yma am ail-ymddangosiad buan Crist yn amlwg trwy bron holl lyfrau y Testament Newydd. Yr oedd Paul yn ei ddysgwyl i gymmeryd lle cyn diwedd ei fywyd, fel y tystia ei lythyr cyntaf at y Thessaloniaid. Mae y teimlad hiraethus yma oedd wedi ei eni o siomedigaeth y groes a diflaniad gobeithion Messianaidd y dysgyblion yn cael ei adsain yn nghalon pob Efengylwr ac Apostol, ac mae'r un gri yn glywadwy yn y llyfr hwn. Dysgwyliad ofer a brofodd ef y pryd hwnw, dysgwyliad ofer a brofa ef hefyd i freuddwydwyr y dyddiau presenol. Mae'r Iesu wedi diflanu am byth o ran ei bresenoldeb allanol, i fod gyda ni byth yn "ddeddf yspryd y bywyd." Ac yr wyf fi yn ddiolchgar am ymddangosiad y llyfryn bychan hwn sydd yn cin harwain oddiwrth ddychymygion a chyfundrefnau dynion at symlrwydd ymarferol addysg ddwyfol yr Iesu, ac er gwaethaf rhai diffygion sydd ynddo, yn symmud ymaith i ryw fesur y llen ag mae duwinyddion wedi godi fyny rhyngom ni a'n Hathraw mawr i ni gael ei weled megys ag yr oedd.

W. J.

NODYNAU GWASGAROG.

Melusine.—Dyma enw cyhoeddiad sydd yn ymddangos yn Paris, dan olygiaeth M. Gaidoz. Ei genadwri yw casglu yr hyn a eilw y Sais yn *Folk-lore*. Fel yr ydym wedi awgrymu o'r blaen carem fod yn alluog i helpu yn y cyfeiriad yma. Tybia rhai nad oes un daioni i'w gael oddiwrth hen ystraeon, neu chwedlau ofergoelus, ac nas gall fod un dyben da o'u casglu. Camsyniad yw hyny. Fel yr ydys wedi dysgu gwersi pwysig oddiwrth y malwod, abwyd, brogaod, &c., felly gall fod gwersi hefyd mewn cyssylltiad a llawer nad ymddangosant i'r cyffredin ond ystraeon diffrwyth. Dichon y gallant daflu goleuni ar y meddwl dynol nas gellir ei gael o un cyfeiriad arall. "The proper study of mankind is man," meddai Pope, ac ni ddylid ystyried dim yn ddibwys a allo daflu goleuni ar y pwnc mawr hwn. Pan ddangosodd Franklin lawenydd mawr o herwydd ei ddarganfyddiad mewn cyssylltiad â thrydan (electricity), gofynodd rhywun iddo, Pa les oedd hyny? Atebodd Franklin na wyddai pa le oedd etto, ond y gwyddai ei fod wedi darganfod ffaith newydd mewn natur, a bod hyny yn beth i'w lawenychu o'i blegyd. Mae'r sawl a ychwanego at wybodaeth yn gymmwynaswr i'w genedl. Pwy allai ddychymygu can mlynedd yn ol y buasai cymmaint yn cael ei adeiladu ar gefn y darganfyddiad hwn o eiddo Franklin. Darganfyddiad Franklin sydd wedi gwneuthur y *telegraph* a'r *telephone* a'r *electric light*, a llu o bethau pwysig ereill yn bossibl.

Sefydledig wrth Gyfraith.—Mae amddiffynwyr yr Eglwys Loegr fel y mae yn hawlio iddi ddechreuad a safle uwchlaw y gyfraith. Gwadant ei bod yn sefydliad wedi ei chreu gan y wladwriaeth, a dywedant nad yw yn cael ei rheoli gan y wladwriaeth. Darfu i Ficer St. Alban, fodd bynag, ymddwyn yn ei dyb ef yn ol y ddeddf wrth wrthod y cymmundeb i hen wr a hen wraig oeddynt wedi bod yn briod 50 mlynedd, gan awgrymu eu bod yn byw mewn godineb. Yr oedd yr hen wr ar ol myned yn weddw wedi priodi chwaer ei wraig gyntaf. Appeliwyd at yr Esgob, a chadarnhaodd ymddygiad yr offeiriad. Wedi cael barn yr *Attorney General* newidiant eu stori. Yr oedd yr hen bobl wedi priodi cyn 1835 (pan basiwyd y ddeddf bresenol), ac felly yn awr caniateir y cymmundeb iddynt. Onid yw yn naturiol i ofyn pa un ai yr eglwys neu y wladwriaeth sydd i benderfynu y pwnc hwn? A sut y gall peth fod yn odineb ar ol 1835, os nad oedd hyny cyn 1835. Onid yw yn warthus *insultio* hen bobl fel yma, a gwneuthur awgrymiadau cas mor hollol ddisail. Nid yw moesoldeb yn beth sydd yn dybynu ar air offeiriad nac ar air *Attorney General*.

Paham y dylai babanod gael eu damnio.—Fel hyn y mae Jameson yn ei *Verus Patroclus*, pp. 147, 148, dyfynedig yn *Common Place Book* Robert Southey, y bardd, yn ymresymu:—"Sicr yw oddiwrth rediad

cyffredin yr Ysgrythyrau, ac mewn Dadguddiad neillduol xxii, 25, fod pawb ag ydynt yn ngolwg Duw yn gwn, yn bersonau euog, ac i gael eu cau allan o'r nefoedd, ac o ganlyniad i gael eu gwthio i uffern. Ond y mae cenedloedd cyfain heb un eithriad yn gyfryw (Mat. xv. 26); gan hyny y mae babanod, gan eu bod yn rhan o'r cyfryw genedloedd, yn haeddu cael eu cau allan o'r nefoedd, a'u danfon i uffern." A elli di gredu hyny, ddarllenydd? A elli di gredu y *gall* Duw trugarog a graslawn, tosturiol a hirymarous, ymddwyn mor groes i'w natur, mor annghysson a'i gymmeriad, a gyru neb o blant dynion i uffern am beth nas gallant mewn un modd oddiwrtho? A fyddai hyny yn gyfiawnder? Ni all Duw ymddwyn yn annghyfiawn. "Pa beth bynag a hauo dyn," &c., meddai Paul, ond nid dyma addysg yr athrawiaeth hon. "Pob un a ddwg ei faich ei hun" meddai Paul, ond pa wedd y gellir dywedyd mae ei faich ei hun a ddyga'r Pagan yn ol y rheol hon. Fe ddylai Cristionogaeth ddysgu cyfiawnder! S. N. S.

Owen Rees.—Gellir barnu oddiwrth "Eiriadur Bywgraffyddol" J. T. Jones, yr hwn sydd yn llyfr defnyddiol a gwerthfawr iawn, mai dau ddyn gwahanol oedd Owen Rees, gweinidog cyntaf Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, ac Owen Rees, Pentretygwyn, tra mewn gwirioncdd yr un person oeddynt. Gweler "Hanes Eglwysi Annibynol," &c., lle y ceir ychydig o'i hanes, a bywgraffiad ei weddw yn y *Monthly Repository*, Vol. XIII., yr hwn a fu farw yn 1818, yn 100 oed. Enw y weddw yn y *Repository* yw Mary Rees Bevan, canys yr oedd wedi bod yn briod wedi claddu Mr. Rees, â meddyg parchus o Aberdar, o'r enw Sion Rees ab Evan, yr un tylwyth a'r Evansiaid o'r Toncoch. Bu farw yn y Gelligron gyda rhai o'i hwyrion. Ordeiniwyd Mr. Owen Rees yn Nglynypentan, capel oedd yn gyssylltiol a Phentretygwyn, Mawrth 11, 1742 (y flwyddyn y bu Jenkin Jones, Llwynrhydowen, Arminiad cyntaf Cymru farw), pryd y gweinyddwyd gan Meistri Phillip Pugh, John Harries, Capel Isaac, Thomas Morgan, Llanwrtyd, ac ereill. Adeiladwyd Hen-Dy-Cwrdd, Aberdar, yn 1751, ond yn ol awdwyr "Hanes Eglwysi Annibynol Cymru," Cyf. iv. 583, ni ymadawodd Mr. Rees â Phentretygwyn hyd 1756 neu 1757, ac efe, mae'n debyg, oedd gweinidog cyntaf H. D. C., Aberdar. Bu yn gweinidogaethu yno hyd ei farwolaeth yn 1768. Claddwyd ef yn mynwent hen eglwys y plwyf lle y gwelir ar dalcen yr eglwys gareg goffadwriaethol am dano. Am fanylion ereill gweler Ymofynydd 1854.

Dr. Abraham Rees.—(1743—1825). Yr oedd yn fab i'r Parch. Lewis Rees, Llanbrynmair (1710—1800), ac yr oedd ei fam yn ferch i Abraham Penry, yr hwn oedd o deulu John Penry, yr hwn a fu farw yn ferthyr i'w Annghydffurfiaeth yn nheyrnasiad y frenines Elizabeth (1593). Dr. A. Rees oedd golygydd yr Encyclopædia mawr, yn cyn-

nwys dros 40 o gyfrolau. Adroddir am dano yr hanesyn canlynol: Pan yn fyfyriwr yn y Coleg yn 1760, cafodd genad ei athraw i fyned gyda gweinidogion y Tri Enwad pan gyflwynasant eu llongyfarchiad i Sior III., ar ei esgyniad i'r orsedd. Darllenwyd y cyfarchiad gan Dr. Samuel Chandler, ac yr oedd 140 o weinidogion yn bresenol gyda ef. Ar esgyniad Sior IV. yn 1820, cafodd Dr. Rees, yr hwn erbyn hyn oedd yn cael ei gydnabod fel Tad gweinidogion Llundain, ei ddewis fel eu cynnrychiolydd a'u *spokemsan* gerbron yr Orsedd. Gwnelai ei ymddangosiad hynafol ac urddasol, a'i hyawdledd naturiol o honynt eu hunain sicrhau sylw a pharch; ond pan y gwnaed yn hysbys i'r brenin y ffaith fod Dr. Rees yn bresenol ar amgylchiad cyffelyb 60 mlynedd cyn hyn, darfu iddo drosodd a throsodd mewn amryw ffyrdd ddangos arwyddion parch a charedigrwydd. T. C. U.

Manion a Hanesion.

Tua'r flwyddyn 800 y dechreuwyd cyfrif amser oddiwrth enedigaeth Iesu Grist.

Yn 1010, cyhoeddodd Canon Bremen lyfr, yn yr hwn y dywedodd nad oedd gan drigolion Muscovia ond un llygad ac un goes.

Yn 1528—1534, cafwyd haf parhaus am chwech mlynedd yn Ffrainc, ac yn yr amser hwnw, yr oedd natur, o herwydd y gwres parhaus, megys wedi ei diyspyddu, yn dwyn blodau o hyd, ond heb nerth i'w haddfedu. Lluosogodd pob math o bryfaid, yna daeth newyn dychrynllyd, ac ar ol hyny daeth pla a ddinystriodd un o bob pedwar o holl drigolion Ewrop.

Diwygiwyd y Calaniadur gan y Pab Gregory yn 1582. Ni ddygwyd y diwygiadau i'n gwlad ni hyd 1752, o herwydd rhagfarn yn erbyn Pabyddiaeth.

Teyrnasoedd Sior III. yn agos 60 mlynedd, ond y mae hyny yn syrthio yn fyr o deyrnasiad Louis XIV., yr hwn a deyrnasoedd yn agos i 72 mlynedd (1643—1715).

Dywedir i'r Napoleon Cyntaf yn ystod ei deyrnasiad aberthu 5,490,000 o bobl i'w uchelgais.

Meddai y ffraethbert Douglas Jerrold wrth ddyn ieuanc oedd yn awyddus i weled ei hun mewn argraff, "Cymmer gynghor genyf fi, ddyn ieuanc, a phaid a thynu y *shutters* i lawr cyn byddo genyt rywbeth yn y ffenestr."

Llanbedr.—Yr wyf yn methu a gwybod beth yw eich sail dros fanu "fod y gair *dirwest* os yn gyfystyr a'r gair *egkrateia* yn golygu mwy nag y mae Mr. Jones, Llanbedr, yn olygu wrtho." Carwn gael eglurhad. Hyd yma y mae'n ymddangos i mi eich bod yn gwneuthur yr hyn na ddylasech wrth ddwyn cyhuddiadau o'r fath o flaen darllenwyr Yr Ymofynydd. —R. C. Jones.

[Mae yn bossibl, ac yn debygol feallai, ein bod wedi camddeall awgrym Mr. Jones. Ond felly y darfu i ni ei ddeall, fel awgrymiad titotalaidd ar ddarlleniad Mr. Davies, "cyfiawnder, *cymmedrolder*, a'r farn a fydd." Nid oes yr un cyhuddiad am a wn i, ond tipyn bach feallai o gamddealldwriaeth. Nid ydym ni erioed yn fwy nâ'n gohebydd, wedi ystyried meddwdod yn gymhwysder i neb i fyned i'r nefoedd.—Gol.]

Nis gall efe gashau dyn, sydd yn caru Duw; nac efe gashau Duw, sydd yn caru dyn.—*St. Chrysostom.*

Pa faint mwy y gallem wneuthur o'n bywyd teuluaidd a'n cyfeillgarwch, pe b'ai pob meddwl dirgel o gariad yn blodeuo i weithred!

O holl weithredoedd bywyd dyn, ei briodas yw yr hyn a berthyn leiaf i bobl ereill; ac etto, o holl weithredoedd bywyd nid oes yr un ag y mae pobl ereill yn ymyryd mwy ag ef.

Crefydd yw yr hanner ardderchocaf hwnw o fywyd, heb yr hwn nid oes dim yn sefyll mewn mantoliad cywir. Y mae yn gofyn yr un gwrtaith ymarferol a'r hanner arall, ac y mae yn cynnorthwyo a sefydlogi hwnw mewn modd rhyfeddol.

Trioedd.—Tri angenrhaid pregethwr poblogaidd: y Beibl, y *Concordance*, a llyfr Anigots (Anecdotes) Paxton Hood.

Tri angenrhaid llwyddiant cyhoeddiad: gohebwyr galluog, dosparthwyr ffyddlon, a derbynwyr gonest.

Tri hoff beth y cantorion: *Tuning-fork*, llyfr *notes*, a chwympo maes â'u gilydd.

Tri eisieu cantorion: Eisieu cofio nad yw swn yn ddim heb synwyr, proffes yn ddim heb frawdgarwch, na chanwr yn ddim heb dduwioldeb.

Tri chosyn y sydd: Cosyn Lloegr, cosyn Caerffili, a chosyn Cardi.

Tri gofid y pregethwr Undodaidd: Pregethu pregeth o'i frest, pregethu am ddim, a chadw ysgol.

Tri rhwystr crefydd yn Nghymru: Difaterwch, a balchder, a Syr Sion Heidden. —Pwy?

CYNGHORION CATWG DDOETH PARTH IECHYD AC EINIOES.

1. A chwenycho fyw'n hir, chwareued hyd ngain, llafuried hyd ddeugain, a gorphwysed hyd olaeth (angeu).

2. Coded gyda'r hedydd, caned gyda'r hedydd, ac aed i gysgu gyda'r hedydd.

3. Bwytaed pan fo arno chwant, yfed pan fo arno syched, a gorphwysed pan fo arno flino.

4. Gocheled fyw rhy foethus, a diod rhy gadarn, a gwaith rhy drwm a thrafferthus.

5. Gocheled gormod o fwyd, a gormod o ddiod, a gormod o lafurwaith.

6. Gocheled ymryson, cared heddwch, a bydded di-fawr-ofalon.

7. Bydded lawen, bydded hael, a bydded gyfiawn.

8. Bydded wrth un wraig, yn gadarn yn ei ffydd, ac yn lan ei gydwybod.

9. Bydded fyfyrgar y boreu, gweithgar yn nawnddydd, a chyfeillgar yn echwydd (hwyr).

10. Bydded dyddan ei fyfyrdod, diniwed ei gampau, a'i awyr yn iachus.

11. Bydded nid hen ei wisg, yn lanber ei gylched, ac yn foddlon i'r byd a fo.

12. Bydded ysgawn ei wisg, ysgawn ei ymborth, ac ysgawn ei galon.

13. Bydded serchog ei fryd, a bywiog ei awen, ac yn aml ei gyfeillion.

14. Cadwed gyfraith ei wlad, a rheol ei alwad, a gorchymynion ei Dduw.

15. Ac o wneuthur fel hyn, bydd iachus ei gorff, ac esmwyth ei feddwl, a glan ei gydwybod.

16. Bydd hir ei einioes, a'i ddiwedd yn wynfyd, a'i Dduw ei garu.

Mae Duw yn maddeu fel mam, yr hon a gusana ymaith y trosedd i ebargofiant tragwyddol.

Pe byddai i un honoch farw heddyw, a allech chwi ddweyd wrth Dduw, "Arglwydd, dyma waith fy mywyd. Ti a'm hanfonaist i'r byd a dyrnaid o hadau, a dyma i Ti fy nghalon, fel gardd, yn llawn o flodau?"

Nid da i ddyn weddio hufen, a byw eillaeth.

Y gwir ddyn yw yr hwn ag sydd bob amser yn ceisio esgusodi ereill, ond byth yn esgusodi ei hun.

Pan y pechwn, nid ydym yn myn'd yn erbyn deddf oer a dideimlad; ond yr ydym yn taro, gyda llaw greulon, yn union yn erbyn calon fyw a chariadlon Duw.

Mae'r hwn sydd anffyddlon i'w ddyledswydd bresenol yn tori edefyn yn y wë, a cha afael yn y diffyg pan y byddo, fe ddichon, wedi annghofio yr achos o hono.

Ni raid i un dyn ofni y bydd iddo ddihysbyddu ei etifeddiaeth o feddwl, os bydd iddo dynu ei fywyd cyffredin. Yno y mae y Duw anhysbyddadwy yn tywallt dyfnderau ac amrywiaeth diderfyn o wirioneddau; ac nid yw'r cywir feddyliwr ond ysgrifenydd llaw fèr i gofnodi arawd y Duw Anfeidrol. A fydd i'r plentyn ar lan yr Amazon ofni rhag y bydd iddo yfed yr *holl* afon?

Dim yn y Ty. — Y mae yn anhawdd siarad yn rhy benderfynol ar yr angenrheidrwydd i Gristionogion fod yn llwyrymwrthodwyr er mwyn ereill. Mewn Cyfarfod Dirwestol yn ddiweddar yr oedd boneddiges yn siarad gyda dynes oedd wedi syrthio yn isel iawn drwy ddylanwad y diodydd. Yr oedd yn awr yn dlawd, er y bu unwaith yn derbyn 300 o bunnau yn flynyddol. Wrth geisio ei darbwyllo a'i dwyn i synied y golled a'r drwg yr oedd yn wneyd iddi ei hun wrth wario ei harian am beth nad oedd arni angen am dano, ag y gallasai yn hawdd wneyd hebddo, trodd at y foneddiges a dywedodd: —"Yr wyf yn sicr fod genych *chwi* win yn eich tŷ." Mor falch oedd y foneddiges wrth allu dweyd, "*Dim un diferyn.*" Cafodd hyn fwy o effaith ar y ddynes nâ'r holl siarad, ac addawodd fyw yn wahanol.—C.

Marwgofion.

Mawrth 23, yn 86 mlwydd oed, Jane, gweddw y diweddar Evan Thomas, Gwehydd, Penybont, Cwrtnewydd. Y dydd Mawrth canlynol, gosodwyd ei chorff i orphwys yn ymyl yr eiddo ei phriod yn mynwent Capelybryn. Cyflawnwyd y gwasanaeth ar yr achlysur yn nghlywediggaeth cynnulleidfa fawr gan weinidog y lle.

Ebrill 17, o'r *Cancer*, yn 65 mlwydd oed, Rachel Jones, Ystrad House, Lampeter. Nid ydym yn meddwl ei bod erioed o gyfansoddiad corfforol cryf, iach. Ond os oedd ei chorff hytrach yn eiddil, yr oedd ganddi alluoedd meddyliol cryfion neillduol. Byddai'n hoff iawn o siarad a dadleu ar bynciau crefyddol, ac ambell i ddadleuwr fyddai'n gallu bod i fyny â hi. Ond er pob dawn gafaelodd clefyd marwol yn y tŷ o glai, ac ar ol poenau dirfawr, ddydd a nos, am dros ddwy flynedd o amser, ymollyngodd y babell a chafodd ei henaid ei ryddhau. Ar ddydd yr angladd dangosodd pobl Llanbedr ac ereill barch mawr i'r ymadawedig a'i phlant. Nid ydym yn cofio am angladd mwy *respectable* yn myned allan o'r lle. Gadawodd ddau o blant i alaru ar ei hol, y rhai a fuont dirion iawn o honi yn ei chystudd olaf. Claddwyd ei gweddillion yn mynwent Ystrad. Gweinyddwyd yn y tŷ gan y Parch. R. C. Jones, ac yn y fynwent gan Vicar y plwyf.

Ebrill 23, Anne, gweddw Mr. James Rees, Aberaman, ychydig yn fyr o'r 70 oed. Ni chafodd ddwyn baich bywyd yn hir ar ol ei gwr. Hen bobl barchus a duwiol oedd y ddau, a hynod o ddedwydd a boddlawn. Nid ydym yn cofio erioed clywed gair anngharedig am neb oddiwrth yr un o honynt. Yr oedd Mrs. Rees yn wyr i'r Parch. Thomas Evans (Penpistyll), a'r diweddaf o'r teulu sydd yn dal cyssylltiad a'r H. D. Cwrdd. Yr oedd hefyd yn nith ferch brawd i'r diweddar Barch. Isaac Harris o'r Wyddgrug, hen wr parchus a diniwed. Pan yn y Coleg yn Nghaerfyrddin y cymmerodd efe yr enw Harris, a gwnaeth hyny o herwydd y lluaws Dafisiaid oedd yno ar y pryd. Dafis oedd enw tad Mrs. Rees. Gwasanaethwyd yn yr H.D.C. gan y gweinidog (Heb. ix. 27), a chladdwyd yn y *Cemetery*.

Ebrill 25, y bu farw yn ddisymwth yn 66 oed, gwr tra adnabyddus mewn cylch helaeth iawn, y Parch. W. Morgan, gweinidog yr Annibynwyr yn *Union Street*, Caerfyrddin, ac un o athrawon y Coleg oddiar 1863. Safai Mr. Morgan yn uchel yn mharch ac ymddiried ei enwad, ac yn y coleg hoffid ef gan y myfyrwyr o bob enwad, yr Undodiaid yn llawn cymmaint ag ereill, ar gyfrif ei rinweddau lluosog, fel mae nid gwaith hawdd fydd cael un i lanw y bwlch y mae wedi adael ar ol. Gyda'r Bwrdd Presbyteraidd yn Llundain y mae'r *appointment* yn gorphwys.

Ebrill 25, yn 84 oed, Thomas Evans, Tanycoed, Llangeler. Yr oedd yn un o aelodau henaf os nad yr henaf o eglwys Llwynrhydowen, a bu yn gwasanaethu fel diacon yno am flynyddau. Er fod y pellder yn faith, yn anaml yr oedd ei le ef a Mrs. Evans yn wag yn nghyfarfod bore Sul yn y Llwyn tra y parhaodd nerth ac iechyd. Mae ef wedi ei symud o'n plith, a hithau yn aros i ddysgwyl mewn henaint a llesgedd y gwahoddiad sydd yn ein galw i rodio y llwybr ar hyd yr hwn nis dychwelwn. Nodded y nef fyddo gyda hî a'r teulu lluosog sydd yn dysgwyl wrthi am help profiad addfed y blynyddau sydd wedi myned heibio, ac yn neillduol ar y rhai bychain amddifaid a ymddiriedodd Rhagluniaeth i ofal eu tadcu, ac i'r rhai y bu ef yn dad mor ofalus a thyner. Claddwyd yn y Llwyn dydd Mawrth canlynol. Gweinyddodd W. J. yn y tŷ a'r capel, a T.T. ar lan y bedd.

Mai 1, William Hughes, Aberaman, yn 75 oed, ar ol deng mlynedd o gystudd, wedi ei ddwyn yn ddirwgnach iawn. Cynnaliwyd y gwasanaeth yn yr H.D.C. (2 Cor. xv.), a chladdwyd yn y *Cemetery*. Yr Arglwydd fyddo yn dyner o'i weddw dros weddill ei dyddiau, ac yn ddyddanwch i'r teulu a'r perthynasau oll.

Mai 7, yn No. 1, Green Villas, Cefnpennar Road, Cwmbach, Hannah, gweddw Mr. William Thomas, o'r un lle, yn 64 oed. Cafodd gystudd maith a thrwm cyn rhoddi ffarwel i'r byd hwn. Gadawodd ar ei hol fab a merch. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn *Cemetery* Aberdar. Gweinyddwyd ar lan y bedd gan E. W. L.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

Taliadau.—W.J., Cwmbach; J.W., Dinas; W.H., Cefncoed; B.P., Swansea; J.E., Nantgwyn; D.E., Troedyrhiw; E.J., Ceginan; L. Ll., Cardiff; H.J., Glynneath; D.T., Liverpool; J.D., Capelgroes; Mrs. W., London; J.J., Aberdar; D.J., Ciliau.

D.S.—Yr oedd rhai gohebiaethau yn rhy ddiweddar i'r mis hwn. Ceisiwn roi ateb i'r gwr o Benfro yn ein nesaf.

Telerau:—Pris 3c., trwy'r post 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Ivy Cottage,
ABERDARE.

AGORIAD CAPEL Y GRAIG, LLANDYSSUL,

A gymmer le ar ddyddiau Iau a Gwener, Gorphenaf 3ydd a'r 4ydd. Y Cyfarfod yn dechreu nos Iau am 7 o'r gloch. Y Cyfarfod dranoeth am 10. Pregeth Gymraeg gan y Parch. Thos. Thomas, pregeth Saesneg, yn debygol, gan y Parch. H. Ierson, M.A. Am 2, Cyfarfod Cyhoeddus yn y capel. Anerchiadau ar wahanol bynciau gan weinidogion a lleygwyr ydynt wedi addaw eu cynnorthwy. Hwyr yr un dydd yn *Assembly Rooms* y Porth Hotel, traddodir Darlith ar "Gladstone," gan y Parch. R. J. Jones, M.A., Aberdar. H. P. Cobb, Ysw., Castle Green, Aberteifi, yn y gadair. Tocynau, 1s. a 6c. Dechreuir am 7.30. Gwasanaethed y rhybudd hwn fel gwahoddiad calonog i'r gweinidogion ac ereill y byddo dymuniad a chyfleusdra ganddynt i fod yn bresenol. Rhoddir hyspysrwydd pellach yn y Rhifyn nesaf.

W. JAMES, Gweinidog.

CAPEL NEWYDD LLANDYSSUL.

Cydnabyddwyd eisoes £695 1s. 8d. R. M. Davies, Chemist, Llandyssul, 10s.; R. Davies, Somerset House, do., £5; Casgliad yn Gellionen a Chraig Trebanos:—R. Morgan, 2s. 6d.; L. Hopkin, 4s.; H. John, 4s.; John Williams, 2s. 6d.; H. Griffiths, 3s. 6d.; D. Joseph, 2s. 6d.; J. Hopkin, 2s. 6d.; Mrs. Smith, 4s.; W. Thomas, 2s. 6d.; Howell John, 4s.; D. W. Davies, 3s.; D. Bowen, 2s. 6d.; A. Davies, 3s.; T. Morgan, 7s.; E. Thomas, 2s. 6d. Mân symiau, £1 12s. 11d. John Davies, Builder, Swansea, 10s.; D. Davies, Penrhiwfach, Llandyssul, 2s. 6d.

O.Y.—Taer erfynir ar y rhai sydd wedi addaw, ond heb dalu, i gyflawnu eu haddewidion mor fuan ag y byddo bossibl.

W. JAMES, Ysgrifenydd.